O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2915 (Cy. 240)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gwahardd defnyddio offer gosod wrth bysgota am bysgod môr yn yr ardal benodedig, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gwahardd defnyddio offer gosod wrth bysgota am bysgod môr yn yr ardal benodedig, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a geir yn erthygl 4.

Mae erthygl 4 yn gosod yr eithriadau i'r gwaharddiad yn erthygl 3. Yr eithriadau yw offer gosod penodedig sydd wedi'u hawdurdodi o ran pysgota am bysgod môr.

Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2915(Cy.240)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010

Gwnaed *7 Rhagfyr 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *9 Rhagfyr 2010*

Yn dod i rym *1 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 5(1) a (9) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Ionawr 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr ardal benodedig" (*"the specified area"*) yw unrhyw ddyfroedd mewndirol neu ddyfroedd llanw yng Nghymru;

ystyr "brithyll mudol" (*"migratory trout"*) yw brithyll sy'n mudo yn ôl ac ymlaen i'r môr;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i *"Wales"* yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**(2)**).

(**1**) 1967 p.84. Amnewidiwyd adrannau 5(1) a (9) gan adran 198 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23).
(**2**) 2006 p.32.

ystyr "dyfroedd llanw" (*"tidal waters"*) yw unrhyw ran o'r môr neu unrhyw ran o afon sydd o fewn trai a gorllan y llanw ar lanw mawr arferol;

mae i "dyfroedd mewndirol" yr ystyr a roddir i "*inland waters*" yn adran 221(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**);

mae "eog" *("salmon")* yn cynnwys unrhyw bysgodyn o rywogaeth yr eog;

mae "offer gosod" *("fixed engine")* yn cynnwys–

(a) rhwyd stanc, rhwyd cwdyn, rhwyd fasged neu rwyd fasged fawr;

(b) unrhyw declyn neu offeryn gosod ar gyfer cymryd neu hwyluso cymryd pysgod;

(c) unrhyw rwyd sy'n cael ei dal yn ei lle gan angorau ac unrhyw rwyd neu declyn arall ar gyfer cymryd pysgod, sy'n sownd i'r pridd, neu wedi'i osod yn sefydlog mewn unrhyw fodd arall; ac

(ch) unrhyw rwyd sy'n cael ei gosod, ei dal neu ei chynnal mewn unrhyw ddyfroedd mewndirol neu ddyfroedd llanw sydd heb fod yng ngofal y perchennog neu berson a awdurdodwyd yn briodol gan y perchennog i'w defnyddio ar gyfer cymryd pysgod môr, ac unrhyw offer, dyfais, peiriant neu beth, p'un ai a yw'n arnofio ai peidio, ar gyfer gosod neu ddal neu gynnal rhwyd o'r fath neu ei chynnal a'i chadw fel ei bod yn gweithio neu ei gwneud yn sefydlog; ac

ystyr "pysgod môr" (*"sea fish"*) yw pysgod o unrhyw fath sydd i'w cael yn y môr, gan gynnwys pysgod cregyn, eogiaid a brithyll mudol;

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i erthygl 4, gwaherddir pysgota am bysgod môr gydag offer gosod yn yr ardal benodedig.

Esemptiadau

4.—(1) Nid yw erthygl 3 yn gymwys i–

(a) offer gosod, yr awdurdodir ei osod a'i ddefnyddio mewn is-ddeddfau a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu ei rhagflaenyddion; neu

(b) offer gosod, yr awdurdodir ei osod a'i ddefnyddio mewn is-ddeddfau y cyfeirir atynt yn Erthygl 13 ac Atodlenni 3, 4 a 5 o

(**1**) 1991 p.57.

Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbedol) (Cymru a Lloegr) 2010(**1**); neu

(c) offer gosod sy'n ddull trwyddedadwy o bysgota at ddibenion adran 25 o Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975(**2**) ac sy'n cael ei ddefnyddio yn unol â thrwydded a roddwyd at ddibenion yr adran honno; neu

(ch) offer gosod, yr awdurdodwyd ei osod a'i ddefnyddio o dan adran 27A o Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975.

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

7 Rhagfyr 2010

(**1**) O.S. 2010/630 (p.42).
(**2**) 1975 p.51.